JONES, THOMAS (1848 - 1900), llawfeddyg

Enw: Thomas Jones
Dyddiad geni: 1848
Dyddiad marw: 1900
Rhiant: David Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llawfeddyg
Maes gweithgaredd: Meddygaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn y Derlwyn yn Sir Gaerfyrddin, yn fab i David Jones, a gadwai ysgol yno. O'r Coleg Normal yn Abertawe, aeth i'r Northern Hospital yn Lerpwl; graddiodd yn F.R.C.S. Dechreuodd ei yrfa fel llaw-feddyg ym Manceinion yn 1873, a daeth yn fuan iawn yn arbenigwr ymgynghorol yn ei faes. Yn 1880, penodwyd ef yn ddarlithydd mewn llawfeddygiaeth yn Owen's College, ac yn 1890 yn athro.

Pan dorrodd y rhyfel yn Ne Affrica, a sefydlu ysbyty Cymreig yno (gweler dan Hughes, A. W.), perswadiwyd ef i fod yn brif lawfeddyg iddi. Bu farw yn Ne Affrica 18 Mehefin 1900.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

T. Iorwerth Jones, 'The contributions of Welshmen to science: 41: Prof. Thomas Jones F.R.C.S. (1848-1900),' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1932-3, tt.128-129 (gyda rhestr o'i bapurau)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734485

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu